

**Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd ar nos Lun, 28ain
Medi 2015 yn Ystafell Gwynant, Plas y Brenin, Capel Curig**

Presennol: Richard (RR) – Cadeirydd, Iolo (IPR), Eryl (EO), Gareth (GR), Sian Shakespear (SS), Myfyr (MT), Gwyn (GW), Eirwen (EW), Iolo (ap Gwynn) (IAG)

Ymddiheuriadau: Sian Williams, Mark, Dewi , Elen

1.	<p><u>COFNODION</u> Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 27ain o Ebrill 2015 fel rhai cywir.</p> <p>Materion yn codi</p> <p><u>RHAGLEN HYFFORDDIANT/DIWRNOD BLASU</u></p> <p>Adroddwyd mai siomedig oedd yr ymateb i'r diwrnod blasu gweithgareddau y Clwb a gynhaliwyd ar yr 20fed o Fehefin.</p> <p>Yn y drafodaeth ar hyn gwnaed y sylwadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• Dylid ystyried cael taith i deuluoedd ar raglen y Clwb ar gyfer y gwanwyn• Dylid ambell i daith yn y rhaglen nesaf fod ar y Sul er mwyn gweld os yw'n fodd o ddenu mwy o aelodau ar y teithiau• Dylid cysylltu a chlybiau cerdded/dringo ac Undebau Myfyriwyr Cymraeg Prifysgolion Cymru yn son am weithgareddau'r clwb ac yn nodi bod yna groeso iddynt ymuno yn ein gweithgareddau (yn arbennig yn ystod y gwyliau) os hefo diddordeb• Byddai gwneud cysylltiadau hefo Gwersyll yr Urdd yng Nglan-Llyn yn fuddiol i ledaenu y neges am weithgareddau'r Clwb• Byddai cael cardiau cyhoedduswydd bychain hefo manylion am wefan y clwb fel pwynt cyswllt yn ddefnyddiol ar gyfer lledaenu y neges am ei fodolaeth• Dylai unrhyw neges sy'n mynd allan i hybu gweithgareddau'r Clwb son am y mantais o gael yswiriant trwy'r CMP wrth fod yn aelod <p>Cytunwyd</p> <ol style="list-style-type: none">1. Byddai RR yn ysgrifennu at glybiau mynydda/dringo Prifysgolion Cymru a'r Undebau Myfyriwyr Cymraeg ac yn cysylltu hefo gwersyll Glan-Llyn2. Byddai IAG yn dylunio ac trefnu argraffiad o gyflenwad o gardiau cyhoedduswydd3. Byddai SS yn cael golwg ar bosteri y Clwb4. Byddai EO yn cynnwys teithiau ar y Sul yn y rhaglen nesa5. Byddai EW yn dosbarthu deunudd cyhoedduswydd (cardiau/posteri) yng Nghanolfan Dringo y Beacon yng Nghaernarfon.
2	<p><u>EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2015 - DARLITH</u></p> <p>Adroddwyd bod yna adborth positif wedi bod i ddarlith IAG yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod eleni ac hefyd na chafwyd unrhyw broblemau ymarferol yn y babell gyda amseru a swm ac ati y tro yma.</p> <p>Roedd yna gytundeb y dylid i'r dyfodol geisio sicrhau bod y ddarlith yn ddiweddarach yn ystod yr wythnos ac os yn bosib byddai slot cynharach fel 11am neu diwedd y prynhawn yn fwy delfrydol</p> <p>Ar ran y Pwyllgor diolchodd RR i IAG am ei ddarlith diddorol</p>
3	<p><u>LLYFRYN MYNYDDA</u></p> <p>Cafwyd diweddariad gan EO ar y datblygiadau ynglŷn â chyhoeddi llyfr swmpus safonol ar fynyddoedd Cymru yn y Gymraeg</p> <ul style="list-style-type: none">• Roedd wedi gofyn i'r unigolion hynny oedd yn paratoi disgrifiadau o wahanol fynyddoedd yrru eu gwaith iddo erbyn diwedd Hydref. Byddai'r Panel Golygyddol wedyn yn asesu eu gwaith ac yn ystyried os oedd angen ychwanegu mwy o fynyddoedd i'r rhestr.• Byddai'r Cwmni'r Argraffu eisiau y deunydd terfynol erbyn mis Mai 2016, gyda'r nod o'i argraffu a'i gael yn barod ar gyfer marchnad Nadolig 2016.• Roedd y Pwyllgor wedi penderfynu gwneud cyfraniad ariannol i gefnogi'r llyfryn ond fe fydd y Clwb yn derbyn incwm breintol awdur o'i gyhoeddi. Roedd yna bosibilrwydd y gellid derbyn

	<p>cymorth o hyd at £999 o Gronfa XXXX Parc Cenedlaethol Eryri hefyd tuag at y costau o'i gyhoeddi.</p> <p>Cafwyd hefyd diweddariad gan IAG am waith y Panel Lluniau</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adroddwyd bod y panel yn eitha bodlon hefo y cyflenwad o luniau a oedd ar gael ar gyfer y llyfryn ac os byddai yna fylchau roedd yn ffyddiog bod ganddynt unigolion y gallent dynnu lluniau o'r mynyddoedd dan sylw. • Roedd yna apel wedi mynd allan i aelodau'r Clwb helpu drwy yrru eu lluniau i fewn ond ni chafwyd llawr o ymateb. Nodwyd hefyd tra byddai y prif lluniau a ymddangosir yn y llyfryn angen bod o safon uchel, byddai nifer o luniau atodol yn ymddangos ynddo hefyd ac toedd y gofynion ar eu cyfer ddim mor uchel. Tybiwyd os y byddai aelodau yn gwybod am hyn byddent yn fwy barod i yrru lluniau i'w ystyried.
4	<p><u>CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB</u></p> <p>Adroddodd EO y byddai yn dechrau ar y gwaith o baratoi rhaglen y clwb ar gyfer Rhagfyr 2015 - Mawrth 2016 ac yn sgil y drafodaeth flaenorol, byddai'n cynnwys ambell i daith ar y Sul ynddi hefyd. Roedd Maldwyn am wneud trefniadau ar gyfer wythnos arferol y Clwb yn yr Alban ym mis Chwefror.</p>
5	<p><u>CYFARFOD BLYNYDDOL 2015</u></p> <p>Adroddwyd gan IPR bod trefniadau bellach wedi ei gwneud i gynnal cyfarfod blynyddol 2015 y Clwb yng Ngwesty'r Royal Oak ym Metws y Coed ar nos Sadwrn 7 Tachwedd, 2015.</p> <p>Adroddodd SS bod Arwel Meical wedi derbyn gwahoddiad i fod yn ŵr gwadd ar gyfer y cyfarfod.</p> <p>Cytunwyd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gan y byddai Arwel Meical yn teithio i fyny o Dde Cymru, dylid trefnu llety iddo yn y gwesty os angen a thalu costau teithio ar raddfa 20c y filltir • Er mwyn osgoi gweithgareddau y noson fynd yn rhy hwyr, dylid anelu i orffen y cyfarfod erbyn 7pm fel y gellir dechrau bwyta am 7.15pm (IPR i drafod hefo'r gwesty) a chael y gŵr gwadd i ddechrau siarad am 8.30pm. Byddai slot o 30- 40 munud ar ei gyfer yn ddigonol.
6	<p><u>RHAGLEN HYFFORDDIANT</u></p> <p>Nodwyd y bod nifer o aelodau'r Clwb wedi mynychu cwrs a chael cymhwyster Cymorth Cyntaf tair blynedd yn ol a chan fod y cymhwyster yn dod i ben ar ol cyfnod o dair blynedd, byddent angen eu adnewyddu.</p>
7	<p><u>OFFER</u></p> <p>Adroddwyd gan MT ei fod wedi edrych i fewn i'r angen i brynu offer newydd i'r Clwb ond gwelwyd bod yna stoc healeth o offer yn y de a oedd heb ei ddefnyddio ac roedd bellach wedi ei drosglwyddo iddo ef. Yn sgil hyn nid oedd angen prynu ychwaneg o offer am y tro.</p> <p>Cytunwyd fod angen cael gwybodaeth ynglyn a lleoliadau y gwarchodfeydd a brynwyd gan y Clwb. IPR yn nodi fod ganddo 2 ac y byddai'n trosglwyddo un i SS. Byddai'n synaid da i nodi eu lleoliad ar y safle We fel y gallai aelodau eraill cael atynt i'w defnyddio os angen.</p>
8	<p><u>CYNGOR MYNYDDA PRYDEINIG</u></p> <p>Adroddwyd bod Elfyn Jones o Cyngor Mynydda Prydeinig wedi derbyn gwahoddiad i gyfarfod a'r Pwyllgor heno ond oherwydd gwaeledd roedd wedi anfon ymddiheuriad. Cytunwyd y dylid hysbysu Elfyn bod y gwahoddiad iddo gwrdd a'r Pwyllgor yn dal yn agored pan fydd ei iechyd wedi gwella</p>
9	<p><u>PARTNERIAETH AWYR AGORED</u></p> <p>Doedd dim i'w adrodd</p>
10	<p><u>APEL CYMRU NEPAL WALES</u></p> <p>Adroddwyd gan IPR am y problemau a gafwyd gan yr Apel a oedd wedi ei sefydlu gan rhai o aelodau'r Clwb i geisio codi arian i helpu teulu Kamal Tamang yn Nepal yn dilyn y daergrynfau trychinebus a gafwyd yno yn gynharach eleni. Roedd yna gytundeb y byddai'r Clwb Mynydda yn helpu'r Apel trwy fancio a throsglwyddo'r arian i Nepal tra byddent yn agor cyfrif banc eu hunain. Yn anffortunos roeddynt wedi cael problemau enbyd yn ceisio agor cyfrif banc hefo'r HSBC a oedd ar ol cryn dindroi wedi</p>

gwrthod eu cais. Yn sgil hynny roeddynt yn ceisio agor cyfrif bellach hefo Banc Santander ond doedd dim sicrwydd y byddent yn fwy llwyddiannus y tro hwn.

Cytunwyd

- gallai'r Clwb barhau i helpu'r apel trwy fancio eu pres a'i drosgwlyddo i Nepal yn ôl yr angen cyn belled nad oedd dim cost yn disgyn ar y Clwb.
- Awgrymu i'r Pwyllgor yr Apel gysylltu a Phrif Swyddog HSBC yng Nghymru i fynegu eu siom at y ffordd a ddeliodd y Banc hefo'u cais i agor cyfrif i gynorthwyo teulu a oedd wedi dioddef yn enbyd ar ôl y daeargryn yn Nepal ac yn arbennig am y ffaith na roddwyd unrwyd reswm am wrthod y cais.

11 YR WYDDFA: DWEUD EICH DWEUD

Adroddodd IAG ar sesiynau galw heibio a oedd yn cael eu trefnu gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri mewn amryw o leoliadau yn ystod mis Hydref. Bwriad y sesiynau hyn oedd i roi cyfle i bobl roi eu syniadau ymlaen am ddyfodol yr Wyddfa a fyddai'n cael eu ystyried wrth greu cynllun rheoli ar gyfer y mynydd. Byddai yna hefyd gynhadledd ar y Wyddfa yn cael ei chynnal yn nechrau Tachwedd.

Cytunwyd

- bod yna wir werth i aelodau'r Clwb fod yn rhan o'r broses yma ac ei fod yn bwysig bod ein llais yn cael ei chlywed yn y trafodaethau arfaethedig.
- er mwyn ceisio sicrhau hyn y dylid lledaenu gwybodaeth am y sesiynau hyn ar wefan y Clwb ac y dylid annog aelodau i'w mynychu

13 CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR

Cytunwyd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar nos Lun 11 Ionawr, 2016 yng Nghapel Curig os yn bosib.